# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION CYFARFOD 2il EBRILL 2019

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Troedyraur ar nos Fawrth, 2il Ebrill yn Neuadd Coedybryn.

**Yn bresennol**

Cyng Julie Davies
Cyng Teifi Evans
Cyng Maldwyn Lewis
Cyng Evan John Jones
Cyng Mark Davies
Cyng Llŷr Evans
Cyng Ceri Jones
Cyng Emyr Jones
Cyng Roger Davies
Cyng Owenna Davies

**Ymddiheuriadau** Cyng Eirian James

**Clerc** Eleanor Colbourne

Cyn dechrau'r cyfarfod llongyfarchwyd Cerian a Megan Colbourne ar ei llwyddiant yn ddiweddar. Un yn derbyn Ysgoloriaeth Norah Isaac y Coleg Cenedlaethol Cymraeg a'r llall ar ei swydd fel Swyddog Materion Cymraeg Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe.

| Eitem agenda | Gweithredu | Gan bwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **1. Derbyn ymddiheuriadau** | Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Eirian James. | | |
| **2. Cadarnhau cofnodion** | Cadarnhawyd gan y Cyng Julie Davies a fe'u eiliwyd gan y Cyng Evan John Jones fod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir. | | |
| **3. Datgan diddordeb** | Nid oedd neb yn datgan unrhyw ddiddordeb mewn unrhyw eitem ar yr agenda. | | |
| **4. Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion** | • Nodwyd fod Mr Simon Bray wedi cwrdd gyda rhai o'r cynghorwyr ym Mhrongest i drafod y golau stryd. Cafwyd wybodaeth y bydd y postyn yn ei le yn ystod yr wythnosau nesaf.<br>• Roedd arwyddion newydd ar y ffordd o Benrhiwpal i Gastell Newydd Emlyn wedi cael ei rhoi i fyny.<br>• Roedd y Cyng Maldwyn Lewis wedi edrych mewn i'r broblem sbwriel ar y ffordd o Sgwar Ffostrasol tuag at Plwmp. Mae debyg fod swyddogion y Cyngor Sir yn mynd i ddod allan i weld y sefyllfa. Roeddynt wedi cysylltu gyda'r teulu, sydd o'r Alban, i waredu'r sbwriel. Roedd y teulu yn cytuno ar hyn a felly mae hyn ar waith.<br>• Deiseb cyflymder yn Croeslan. Y Cyng Evan John Jones i wneud ymholiadau parthed y ddeiseb. Y clerc i anfon llythyr at y Cyngor Sir parthed cyflymder yn Ffostrasol a'r unwaith a hefyd anfon yr un llythyr i 'Go-Safe'. Y Cyng Roger Davies i rhoi'r cyfeiriad i'r clerc.<br>• Angen rhoi ffurflen gais am geisiadau ariannol ar y wê cyn y cyfarfod nesaf. | Y Clerc<br>Cyng Evan John Jones<br>Cyng Roger Davies<br>Y Clerc | Ar unwaith<br><br><br><br>Ar unwaith |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Dosbarthwyd gwybodaeth parthed y Côd Ymddygiad a pwysleisiwyd ei fod yn bwysig i bawb i'w darllen. | | |
| **5. Materion y Cynghorydd Sir** | • Hysbyswyd y cyngor cymuned fod y prif ffordd (trunk road) yn cael ei ail wneud a fod yna lawer o oedi.<br>• Bydd loriau sbwriel arbennig cyn hir yn casglu gwydr a clytiau babis.<br>• Llawer o drin a trafod ynglŷn â Gwasanaeth Cerdd Ceredigion. | | |
| **6. Gohebiaeth** | Dim gohebiaeth | | |
| **7. Ariannol** | Talwyd y sieciau canlynol:-<br>• HMRC - £50.00<br>• Tâl y Clerc - £200.00<br>• Llinos Haf Jones (cyfieithu) - £97.50<br>• Ashmole & Co - £76.80<br>• Neuadd Ffostrasol - £30.00<br>• Neuadd Rhydlewis - £32.00<br>• Neuadd Coedybryn - £32.00<br>• Treuliau'r Clerc - £298.72<br>Dosbarthwyd taflen ariannol i bawb.<br>Wnaeth y clerc ddosbarthu ffurflen banc i'r cynghorwyr sydd ddim yn arwyddo, i'w cwblhau. Atgoffwyd hwynt o bwysigrwydd o lenwi'r ffurflen a hefyd i fynd a'r wybodaeth berthnasol i'r banc mor gynted â phosib. Ni ellir ychwanegu neb tan fod pawb wedi mynd a'i gwybodaeth. | Cyng Julie Davies; Llŷr Evans, Mark Davies, Teifi Evans, Ceri Jones | |
| **8. Cynllunio** | Dim cynllunio | | |
| **9. Materion Ardal** | • Gan ein bod ddim yn gallu rhoi gwybodaeth ym mhocs Rhydlewis ar hyn o bryd oherwydd difrod i'r wal, penderfynwyd ein bod yn gofyn i bwyllgor Neuadd Rhydlewis i weld a fyddai'n bosib rhoi gwybodaeth ar yr hysbysfwrdd yn y Neuadd dros dros. Y clerc i ysgrifennu llythyr.<br>• Roedd y Cyng Mark Davies yn mynd i edrych ar bocs Ffostrasol gan fod twll yn y 'perspex'.<br>• Angen i'r clerc anfon cerdyn Priodas at Rhys Williams (cyn cynghorydd) ar achlysur ei briodas.<br>• Penrhiwpal – angen edrych ar 'Traffic Calming Measures' | Y Clerc<br><br>Cyng Mark Davies<br>Y Clerc | Ar unwaith<br><br>Erbyn y cyfarfod nesaf |
| **10. Cadwyn y Cadeirydd** | Roedd y Cyng Mark Davies yn mynd i edrych am brisiau i ychwanegu bariau at y gadwyn.<br>Roedd y Cyng Owenna Davies yn mynd i ofyn i weinyddes i weld a fyddai modd iddi ychwanegu rhuban ychwanegol i'r gadwyn. | Cyng Mark Davies Cyng Owenna Davies | Erbyn y cyfarfod nesaf |
| **11. Datgan Diddordeb** | Penderfynwyd anfon copi o ffurflen datgan diddordeb yr Adran Ethics a Chyhoeddusrwydd a hefyd copiau o'r ffurflen datgan diddordeb arferol at bawb. | Y Clerc | Erbyn y cyfarfod nesaf |
| **12. Diweddariad hyfforddiant diffribiliwr** | Heb dderbyn dyddiad oddi wrth Emyr Jones eto.<br>Roedd y Cyng Maldwyn Lewis wedi siarad gyda Mr Jones a byddai'n rhoi dyddiad i ni cyn hir. | Y Clerc/ Cyng Maldwyn Lewis | Erbyn y cyfarfod nesaf |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **13. Cinio Blynyddol** | Cinio blynyddol yn La Calabria eleni ar nos Iau, 9fed o Fai 2019. Y Clerc i wneud ymholiadau. | Y Clerc | Ar unwaith |
| **14. Ffurflenni Banc** | Hwn eisoes wedi cael ei drafod. | | |
| **15. Eitemau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf** | Swyddogion; Materion Ardal; Hyfforddiant Diffribiliwr; Ffurflenni Banc | | |
| **16. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | 07fed Mai, 2019 am 7.30 y.h. yn Neuadd Rhydlewis | | |

________________________________________ (Cadeirydd)

________________________________________ (Is-Gadeirydd)

DRAFFT